



MAE AMSER MWG
AIL-LAW AR BEN
TIME'S UP FOR
SECOND-HAND SMOKE



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

2 Ebrill 2007

Beth mae angen
i chi ei wybod am y
gyfraith ddi-fwg newydd



Canllaw i gyflogwyr, rheolwyr a'r rheini sy'n rheoli mangreoddedd a cherbydau

Cipolwg ar y gyfraith ddi-fwg newydd

- Daw'r Rheoliadau Mangreoedd etc. Ddi-fwg (Cymru) 2007 i rym am 6.00 am ar 2 Ebrill 2007. Caiff y gyfraith newydd ei chyflwyno i achub bywydau ac atal defydau a achosir gan fwg ail-law.
- Effaith y gyfraith newydd fydd na chaniateir i chi, eich staff, eich cwsmeriaid na'ch ymwelwyr ysmegu o fewn mangre eich busnes neu eich sefydliad, os ydynt yn 'gaeëdig' neu os ydynt yn 'sylweddol gaeëdig'. Mae hyn yn cynnwys 'ystafelloedd ysmegu' a ddynodwyd yn flaenorol.
- Ychydig iawn o eithriadau sydd i'r gwaharddiad ysmegu. Bydd y gyfraith newydd yn effeithio ar y rhan fwyaf o fangreoedd cyhoeddus, yn cynnwys gweithleoedd a cherbydau gwaith.
- Bydd methu â chydymffurfio â'r gyfraith yn drosedd, fel y nodir yn Neddf Iechyd 2006. Gosodir cosbau a dirwyon yn y rheoliadau a wneir gan yr Adran Iechyd.
 - Bydd unigolion yn agored i ddirwy sefydlog o £50 am ysmegu mewn mangreoedd ddi-fwg. Mewn achosion o erlyniad a cholffarn, uchafswm y ddirwy yw £200.
 - Gellid codi dirwy sefydlog o £200 ar y rheolwr neu'r person sy'n gyfrifol am unrhyw fangre ddi-fwg am fethu ag arddangos arwyddion 'Dim Ysmegu'. Mewn achosion o erlyniad a cholffarn, uchafswm y ddirwy yw £1,000.
 - Gellid codi dirwy o hyd at £2,500 ar reolwr neu'r person sy'n gyfrifol am unrhyw fangre ddi-fwg am ganiatáu i eraill ysmegu yn y fangre honno.
- Bydd swyddogion awdurdodedig o fewn pob awdurdod lleol yn gorfodi'r gyfraith newydd ac yn cynnig cymorth i fusnesau ar fodloni eu rhwymedigaethau cyfreithiol.
- Caiff llinell gymorth gydymffurfio ei sefydlu cyn i'r gyfraith ddod i rym fel y gellir cofnodi achosion o dorcyfraith a gweithredu arnynt gan yr awdurdod lleol perthnasol.

Os hoffech wybod rhagor, ewch i www.gwaharddsmygucymru.co.uk i gael y wybodaeth ddiweddaraf drwy e-bost, i ddysgu sut y mae busnesau eraill wedi llwyddo i droi'n ddi-fwg neu i archebu posteri ac arwyddion ychwanegol. Gellir cysylltu â swyddogion gorfodi awdurdodedig yn eich awdurdod lleol (gweler eich llyfr ffôn neu wefan eich cyngor am fanylion).

Cynnwys

Cefndir

Y pecyn canllawiau	4
Pam fod yn rhaid i'r gyfraith newid.....	4
Lleoedd y bydd y gyfraith yn berthnasol	5
Lleoedd a fydd wedi'u heithrio	6

Ei gwneud yn glir

Arwyddion 'Dim Ysmygu' ar gyfer mangre	7
Arwyddion 'Dim Ysmygu' ar gyfer cerbydau.....	8

Paratoi

Sut i gydymffurfio â'r gyfraith newydd	9
Mynd gam ymhellach i gefnogi'r gwaharddiad	9-10
Beth i'w wneud os bydd rhywun yn anwybyddu'r gwaharddiad ysmegu	11

Gwneud iddi weithio

Gorfodi'r gyfraith ddi-fwg newydd.....	12
--	----

Adnoddau am ddim sydd wedi'u cynnwys yn y pecyn

- Arwyddion 'Dim Ysmygu' gyfer mangreoedd
- Ffurflen gais ar gyfer arwyddion ychwanegol
- Polisi "Dim Ysmygu" sy'n barod i'w ddefnyddio

Ceir copïau o Reoliadau Mangreoedd etc. Ddi-fwg (Cymru) 2007 ar-lein yn www.gwaharddsmygucymru.co.uk neu drwy gysylltu â Changen Polisi Tybaco Llywodraeth Cynulliad Cymru ar 029 2082 5687.



Cefndir

Y pecyn canllawiau

Daw deddfwriaeth newydd ddi-fwg i rym yng Nghymru ddydd Llun 2 Ebrill 2007. O'r diwrnod hwn ymlaen, ni chaniateir ysmegu mewn manau cyhoeddus 'caeëdig' neu 'sylweddol gaeëdig', yn cynnwys gweithleoedd.

Nod y pecyn canllawiau hwn yw sicrhau bod pob busnes a man cyhoeddus arall y mae'n ofynnol iddo fod yn ddi-fwg o dan y gyfraith newydd yn barod pan ddaw'r gwaharddiad ysmegu i rym fel y bwriedir am 6am ar 2 Ebrill 2007.

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys arwyddion 'Dim Ysmegu' a pholisi ysmegu enghreifftiol i'ch cynorthwyo i wneud y newid i fod yn fangre ddi-fwg.

Arweiniad yn unig yw'r wybodaeth yn y pecyn hwn. Ni fwriedir iddo fod yn gyngor cyfreithiol nac i roi dehongliad ffurfiol o'r gyfraith, sy'n fater ar gyfer y llysoedd. Os ydych yn ansicr o'ch rhwymedigaethau cyfreithiol, fe'ch cynghorir i geisio cyngor cyfreithiol annibynnol eich hun.


Pam mae'n rhaid i'r gyfraith newid

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cytuno y gellir gwneud rheoliadau newydd i ddiogelu pobl Cymru rhag effeithiau niweidiol mwg tybaco ail-law (ysmygu goddefol). Daeth deddfwriaeth debyg i rym yn yr Alban ym mis Mawrth 2006 a daw i rym yn Lloegr a Gogledd Iwerddon yn ystod 2007.

Adolygodd Pwyllgor Gwyddonol y DU ar Iechyd ar Dybaco ac Iechyd y dystiolaeth ar fwg ail-law yn 2004. Daethant i'r casgliad ei fod yn risg difrifol i iechyd y cyhoedd.

Mae llawer o bobl yn tybio y gall awyru addas ddileu'r risgiau i iechyd sy'n gysylltiedig â mwg ail-law. Fodd bynnag, mae tystiolaeth sylweddol yn dangos mai dim ond dileu aroglau mwg a mwg gweladwy y mae systemau awyru – nid y carsinogenau gwenwynig (cyfryngau sy'n achosi cancer). Gan nad oes lefel ddiogel o amlygiad i fwg ail-law, nid yw awyru'n opsiwn.

Amcangyfrifir y bydd cyflwyno'r gyfraith newydd hon yn atal 400 o farwolaethau bob blwyddyn yng Nghymru ymhlith pobl nad ydynt yn ysmegu.



**MAE AMSER MWG
AIL-LAW AR BEN
TIME'S UP FOR
SECOND-HAND SMOKE**

Effeithiau hirdymor mwg ail-law

Mewn oedolion nad ydynt yn ysmegu, gallai dod i gysylltiad â mwg ail-law:

- Gynyddu'r risg o ganser yr ysgyfaint 24%.
- Cynyddu'r risg o glefyd y galon 25%.
- Cynyddu'r risg o anhwylderau anadlol.

Mewn plant, gallai achosi:

- Anhwylderau anadlol.
- Marwolaeth yn y crud.
- Haint y glust ganol.
- Pyliau o asthma.

Lleoedd y bydd y gyfraith yn berthnasol

Yn amodol ar yr eithriadau isod, bydd gofyn i bob man cyhoeddus, gan cynnwys gweithleoedd a mangreoedd lle y gwneir gwaith gwirfoddol, fod yn ddi-fwg er mwyn diogelu staff a'r cyhoedd rhag y risgiau i iechyd sy'n gysylltiedig â mwg ail-law. Golyga hyn na chewch chi, eich staff, eich cwsmeriaid a'ch ymwelwyr ysmegu yn y man(nau) caeëdig o'ch mangre.

Mae'r gyfraith yn gwahardd ysmegu ym mhob man cyhoeddus '**caeëdig**' neu '**sylweddol gaeëdig**'. Ychydig iawn o eithriadau sydd, a manylir arnynt yn yr adran nesaf.

Ond beth mae '**caeëdig**' yn ei olygu?

Ystyrir bod mangre yn 'gaeëdig' os oes ganddi nenfwd neu do (boed hynny'n strwythur neu'n ddyfais sefydlog neu symudol), ac os yw hi heblaw am ddrysau, ffenestri neu goridorau, yn gwbl gaeëdig naill ai'n barhaol neu dros dro.

A '**sylweddol gaeëdig**'?

Ystyrir bod mangre yn 'sylweddol gaeëdig' os oes ganddi nenfwd neu do (boed hynny'n strwythur neu'n ddyfais sefydlog neu symudol), ond mae agoriadau yn y waliau yn *llai na hanner arwynebedd y waliau*. Mae'r diffiniad hwn yn cynnwys strwythurau eraill sy'n cyflawni diben waliau ac sy'n ffurfio perimedr y fangre. Wrth benderfynu arwynebedd yr agoriadau, ni ddylid cymryd unrhyw gyfrif o agoriadau y mae drysau, ffenestri neu ffitiadau eraill ynddynt y gellir eu hagor neu eu cau.

Os oes gennych 'ystafelloedd ysmegu' dynodedig ar hyn o bryd, mae'n debygol y daw'r rhain o dan y diffiniad 'caeëdig' neu 'sylweddol gaeëdig' bellach. Ni chânt eu caniatáu o dan y ddeddfwriaeth newydd. Ceir gwybodaeth am greu llochesau ysmegu yn yr awyr agored ar dudalen 10.

Anheddau preifat

Yn gyffredinol, nid yw anheddau preifat wedi'u cwmpasu gan y gyfraith newydd. Fodd bynnag, bydd angen i unrhyw ran o annedd breifat a rennir gyda mangre arall fod yn ddi-fwg os yw'r mangreoedd hyn yn agored i'r cyhoedd. Golyga hyn fod angen i gyfleusterau a rennir, megis lifftiau cymunedol a grisiau mewn blociau o fflatiau a cheginau neu olchdai a rennir mewn llety ar ffurf dortur fod yn ddi-fwg.

Caiff cartrefi gwyliau, carafannau, chalets neu ffurfiau eraill o lety gosod preifat eu trin fel preswylfeydd preifat ac nid yw'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol iddynt fod yn ddi-fwg.

Gweithio o gartref

Os oes gennych ystafell yn eich cartref a ddefnyddir at ddibenion gwaith yn unig, ac os oes pobl eraill nad ydynt yn byw yn yr un adeilad yn mynychu'r ystafell honno mewn cysylltiad â'r gwaith a wneir yno, e.e. fel gweithwyr neu gwsmeriaid, bydd angen iddi fod yn ddi-fwg.

Cerbydau

Mae'r ddeddfwriaeth ddi-fwg yn cwmpasu cerbydau a ddefnyddir i gludo aelodau o'r cyhoedd neu a ddefnyddir gan fwy nag un cyflogai wrth gyflawni dyletswyddau gwaith – hyd yn oed os yw'r defnydd hwn ar adegau gwahanol, neu ar adegau ysbeidiol yn unig.

Fodd bynnag, nid oes rhaid i gerbydau preifat (h.y. cerbydau a ddefnyddir yn bennaf at ddibenion preifat gan bersonau sy'n berchen arnynt neu sydd â hawl i'w defnyddio mewn modd heb ei gyfyngu) fod yn ddi-fwg.

Cwmpesir llongau gan reoliadau a wneir gan Adran Drafnidiaeth y DU.



Tafarndai: Bydd y gyfraith ddi-fwg yn cwmpasu tafarndai a chlybiau

Lleoedd a fydd wedi'u heithrio

Dim ond ychydig o eithriadau a wnaed i'r gyfraith, i gwmpasu gweithleoedd sydd hefyd yn fan preswyl person.

Ystafelloedd dynodedig mewn cartrefi gofal preswyl i oedolion, hosbisau i oedolion a lleoliadau preswyl trin iechyd meddwl

Cyhoeddir canllawiau ar wahân i'r GIG, awdurdodau lleol a'r sector gofal lle y bydd yr eithriadau hyn yn berthnasol yn bennaf. Mae hyn er mwyn sicrhau bod polisïau ysmegu cadarn ar waith fel na chaiff cleifion a phreswylwyr nad ydynt yn ysmegu yn ddiangen i fwg ail-law.

Ystafelloedd dynodedig mewn gwesty, gwesty bach, tafarn, hostel neu glwb aelodaeth

Gall gwestai, tai llety, tafarndai, hostelau ac ati. ddynodi un neu fwy o ystafelloedd gwely fel ystafelloedd lle y caniateir ysmegu.

Beth yw ystafelloedd ac ystafelloedd gwely dynodedig?

Ystyr '**ystafell ddynodedig**' neu '**ystafell wely ddynodedig**' yw ystafell:

- A gafodd ei dynodi gan y person sydd â gofal y sefydliad yn ystafell lle y caniateir ysmegu ac a nodwyd yn glir fel ystafell ysmegu.
- Y mae ganddi nenfwd ac sydd, heblaw am ddrysau a ffenestri, yn hollol gaeedig ar bob ochr gan waliau solet o'r llawr i'r nenfwd.
- Nad oes ganddi system awyru sy'n awyru i ran arall o'r fangre (ac eithrio unrhyw ystafelloedd dynodedig neu ystafelloedd gwely dynodedig eraill).
- Nad oes ganddi unrhyw ddrws sy'n agor i fangre ddi-fwg ac nad yw'n cau'n fecanyddol yn union ar ôl ei ddefnyddio.

Er bod y ddeddfwriaeth yn darparu ar gyfer yr eithriadau hyn, nid oes rhwymedigaeth gyfreithiol i fusnesau a gaiff eu rhedeg yn breifat gynnig ystafelloedd ysmegu dynodedig neu ystafelloedd gwely dynodedig os nad ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Ei gwneud yn glir

Er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith, bydd angen i chi arddangos arwyddion 'Dim Ysmygu' mewn mangreoedd a cherbydau ddi-fwg. Nodir gofynion arwyddion yn y rheoliadau ac maent yn wahanol ar gyfer mangreoedd a cherbydau.

Arwyddion 'Dim Ysmygu' ar gyfer mangreoedd

Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i chi arddangos arwydd 'Dim Ysmygu' mewn lle amlwg neu gerllaw mynedfa i fangre ddi-fwg, fel y gall pobl sy'n mynd i'r fangre eu gweld.

Os oes gan eich mangre fwy nag un mynedfa a ddefnyddir gan gyflogaion, ymwelwyr neu gwsmeriaid, bydd angen i chi arddangos mwy nag un arwydd.

Os byddwch yn dewis personoli eich arwyddion, cofiwch am y gofynion canlynol a nodir yn y rheoliadau:

Rhaid i arwydd 'Dim Ysmygu' mewn mangre:

- fod yn fflat, yn betryal o ran ei siâp ac yn 160mm wrth 230mm o leiaf o ran ei faint.
- Arddangos y symbol rhyngwladol 'Dim Ysmygu' mewn coch sy'n 85mm mewn diamedr o leiaf.
- Cynnwys y datganiad dwyieithog canlynol:
"Mae ysmygu yn y fangre hon yn erbyn y gyfraith/It is against the law to smoke in these premises."



Bwytai: Caiff y gyfraith ddi-fwg ei gorfodi mewn bwytai a chantinau

Arwyddion 'Dim Ysmygu' ar gyfer cerbydau

Yn ôl y gyfraith, mae hefyd yn ofynnol i chi arddangos arwyddion 'Dim Ysmygu' mewn unrhyw gerbyd a gwmpesir gan y ddeddfwriaeth (cerbydau caeëdig a ddefnyddir i gludo aelodau o'r cyhoedd neu gan fwy nag un cyflogai at ddibenion dyletswyddau gwaith).

Bydd angen i chi arddangos arwydd 'Dim Ysmygu' mewn lle amlwg ym mhob cerbydran o'r cerbyd sydd wedi'i gorchuddio yn rhannol neu'n gyfan gwbl gan do, gan gynnwys cerbydran y gyrrwr. Gan fod y rhan fwyaf o gerbydau trafndiaeth gyhoeddus eisoes yn ddi-fwg, cadw ydych chi'n gofynion arwyddion i'r nifer lleiaf posibl er mwyn osgoi dyblygu diangen.

Rhaid i arwydd 'Dim Ysmygu' mewn cerbyd:

- Arddangos y symbol rhyngwladol 'Dim Ysmygu' mewn coch sy'n 75mm mewn diamedr o leiaf.

Nid oes gofynion yn ymwneud â maint neu eiriad cyffredinol yr arwydd.

Gellir archebu arwyddion ychwanegol yn rhad ac am ddim, naill ai drwy ffacio'r ffurflen archebu yn ôl, neu drwy archebu'r nifer rydych eu hangen ar-lein ar www.gwaharddsmygucymru.co.uk Ceir fersiynau y gellir eu llwytho i lawr o'r arwyddion ar-lein.

Paratoi

O 6am ddydd Llun 2 Ebrill 2007, bydd angen i bob busnes a sefydliad yng Nghymru y mae'r gyfraith yn berthnasol iddo gymryd camau er mwyn sicrhau nad yw cyflogaion, cwsmeriaid nag ymwelwyr eraill yn ysmygu yn eu mangre.

Mae'r adran hon yn rhoi manylion y camau sylfaenol y cewch eich cynghori i'w cymryd er mwyn sicrhau bod eich busnes neu eich sefydliad yn cydymffurfio â'r gyfraith newydd.

Yn ogystal â'r camau gweithredu sylfaenol sy'n ofynnol, mae hefyd yn rhoi gwybodaeth a chynngor ychwanegol ar gamau gweithredu eraill y byddwch am eu hystyried efallai, er nad ydynt yn ofynnol yn gyfreithiol, er mwyn cefnogi eich staff, cwsmeriaid/ aelodau ac ymwelwyr wrth iddynt addasu i'r trefniadau newydd.



Sut i gydymffurfio â'r gyfraith newydd

Rydym yn argymhell eich bod yn cymryd y camau sylfaenol canlynol:

- Arddangos arwyddion 'Dim Ysmygu' mewn mangreoedd a cherbydau ddi-fwg a gwmpesir gan y gyfraith.
- Cymryd camau er mwyn sicrhau bod staff, cwsmeriaid/aelodau ac ymwelwyr yn ymwybodol ei bod yn ofynnol yn rôl y gyfraith i fangre a cherbydau fod yn ddi-fwg.
- Bod yn barod i hysbysu unrhyw un sy'n ysmygu ei fod yn troseddu ac i gymryd unrhyw gamau rhesymol eraill i'w atal rhag ysmygu. Ceir siart llif ar dudalen 11 sy'n mynd â chi drwy'r camau angenrheidiol er mwyn sicrhau y caiff unrhyw sefyllfa o beidio â chydymffurfio ei thrin yn y modd priodol.

Mynd gam ymhellach i gefnogi'r gwaharddiad

Bydd yr adran hon yn amlygu'r camau efallai y byddwch am eu cymryd efallai er mwyn hwyluso'r newid i fangre ddi-fwg i'ch staff, cwsmeriaid/aelodau ac ymwelwyr. Roedd y camau gweithredu hyn o fudd i lawer o fusnesau wrth iddynt fynd yn ddi-fwg. Fe'u nodir yma i roi arweiniad i chi – nid ydych o dan rwymedigaeth gyfreithiol i'w cyflawni.

Datblygu polisi ddi-fwg ysgrifenedig

I gyfathrebu'r gyfraith newydd a'i holl oblygiadau, rydym yn argymhell yn gryf eich bod yn datblygu ac yn gweithredu polisi ddi-fwg ysgrifenedig. Dylai'r polisi:

- Fod yn gryno ac yn hawdd i'w ddeall
- Nodi aelodau'r tîm rheoli a'r staff sy'n gyfrifol am ei weithredu
- Nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn mewn achos o beidio â chydymffurfio
- Cydnabod hawl cyflogeion i weithio mewn amgylchedd ddi-fwg
- Rhoi gwybodaeth am sut i gael cymorth wrth roi'r gorau i ysmygu
- Cael ei gyfleu i bob aelod o staff – ac yn benodol i staff newydd a rhan-amser cyn iddynt ddechrau ar eu cyflogaeth

Os torrir y polisi, dylech weithredu'r gweithdrefnau disgyblu a ddefnyddir fel arfer ar gyfer achosion o dorri gofynion iechyd a diogelwch eraill.

Er mwyn rhoi syniad i chi o'r hyn y dylid ei gynnwys yn y polisi, mae enghraifft o bolisi yn y pecyn hwn. Os ydych yn hapus i ddefnyddio'r polisi hwn, gallwch ei gwblhau a'i ddefnyddio yn eich busnes neu sefydliad. Ceir polisi mwy cynhwysfawr ar-lein yn www.gwaharddsmygucymru.co.uk

Creu lloches ysmygu yn yr awyr agored

Os ydych yn dymuno darparu lloches ysmygu, fe'ch cynghorir i gysylltu â'ch awdurdod lleol er mwyn sicrhau bod eich cynigion yn cydymffurfio â'r gyfraith. Wrth gynllunio unrhyw loches ysmygu yn yr awyr agored, cofiwch y diffiniad cyfreithiol o le 'caeëdig' neu 'sylweddol gaëedig' a nodir ar dudalen 5.

Cymorth i staff sydd am roi'r gorau i ysmygu

Bydd llawer o bobl yn defnyddio'r gyfraith ysmygu newydd fel cyfle i dorri i lawr neu roi'r gorau ysmygu. Gall gweithleoedd sydd â pholisïau ysmygu mewn grym helpu'r bobl hynny sydd am roi'r gorau iddi. Mae arolygon yn dangos bod dwy ran o dair o ysmygwyr yn dweud eu bod am roi'r gorau iddi.

Ni allai fod yn haws i roi cymorth i'r staff hynny sydd am roi'r gorau iddi. Gallai eich busnes neu eich sefydliad gymryd y camau canlynol:


- Arddangos posteri mewn ystafelloedd staff neu hysbysebu'r gwasanaethau am ddim canlynol ar eich system fewnrwyd.
 - Llinelli Gymorth Ysmygwyr Cymru (0800 169 0 169)
 - Gwasanaeth Rhoi'r Gorau i Ysmygu Cymru Gyfan (0800 085 2219)
- Cefnogi Diwrnod Dim Ysmygu 2007, ymgyrch genedlaethol y DU. Cynhelir yr ymgyrch flynyddol hon bob ail ddydd Mercher ym mis Mawrth. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i **www.nosmokingday.org.uk**



Swyddfeydd: Bydd y gyfraith ddi-fwg yn cwmpasu pob mangre swyddfa

Camau i'w hystyried os bydd rhywun yn anwybyddu'r gwaharddiad ysmegu

Rydym yn hyderus y bydd y rhan fwyaf o bobl Cymru yn parchu'r gyfraith newydd ar ysmegu. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod gennych strategaeth ar gyfer trin rhywun sy'n penderfynu ysmegu yn eich mangre ddi-fwg. Mae'r siart llif canlynol yn nodi rhai camau i chi eu hystyried.



Ym mhob achos lle ceir trais corfforol neu frawychiad neu fygythiad o hynny, dylech geisio cymorth yr heddlu.

Gwneud iddi weithio

Gorfodi'r gyfraith ddi-fwg newydd

Bydd swyddogion awdurdodedig o fewn pob awdurdod lleol yn gorfodi'r gyfraith newydd ledled Cymru. Byddant yn gweithio'n agos gyda busnesau i ddatblygu cydymffurfiaeth drwy roi cyngor a chymorth.

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdodau lleol yn cynnal gweithgarwch codi ymwybyddiaeth cym y gwaharddiad, er mwyn sicrhau fod y cyhoedd yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth newydd. Yn Iwerddon a'r Alban, lle mae gwaharddiadau rhag ysmegu mewn grym eisoes, mae'r ddeddfwriaeth wedi plismona'i hun gan mwyaf, gyda chyfraddau uchel iawn o gydymffurfiaeth a chefnogaeth gan y cyhoedd.

Y bwriad yw mai dim ond pan fydd difrifoldeb y sefyllfa'n gwarantu hynny y caiff camau gweithredu gorfodi eu hystyried, a'u bod yn deg, yn gymesur ac yn gyson. Bydd archwiliadau gorfodi yn seiliedig ar risg a, lle y bo'n bosibl, cânt eu cyfuno ag archwiliadau rheoleiddio eraill er mwyn lleihau'r baich ar fusnesau.

Bydd llinell cydymffurfio yn gweithredu ar ôl i'r gyfraith newydd gael ei chyflwyno. Bydd hyn yn galluogi'r cyhoedd i gofnodi achosion honedig o dorri'r ddeddfwriaeth ddi-fwg. Hysbysebiri y rhif ffôn cyn y daw'r gyfraith i rym a bydd yr awdurdod lleol perthnasol yn ymchwilio i'r holl gwynion.



**MAE AMSER MWG
AIL-LAW AR BEN
TIME'S UP FOR
SECOND-HAND SMOKE**